

CYDYMFFURFIO GYDA SAFONAU CADW COFNODION

Rhif y Safon	SAFON	SUT MAE'R COLEG YN BWRIADU CYDYMFFURFIO
154	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau.	Mae pob cwyn yn dilyn gweithdrefn benodol, sy'n cynnwys rhoi sylw i beidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol, a chadw tystiolaeth o'r gŵyn ei hun a phob gohebiaeth/dogfennaeth gysylltiedig nes bod y weithdrefn wedi'i chwblhau.
155	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	
156	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy ai peidio).	
157	Rhaid ichi gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	
158	Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 134), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.	Mae'r adran Adnoddau Dynol yn cynnal adolygiadau a dadansoddiadau blynyddol o sgiliau Cymraeg pob aelod o staff.
159	Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o— (a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a ddarparwyd yn Gymraeg (yn unol â safon 135), a (b) os darparwyd fersiwn Gymraeg o gwrs yn unol â safon 135, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs.	Mae'r adran Adnoddau Dynol yn cadw cofnod o'r holl hyfforddiant Cymraeg a gwblheir gan bob aelod o staff.
161	Rhaid ichi gadw cofnod o bob asesiad a gynhaliwch (yn unol â safon 145) mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag.	Caiff ffurflenni perthnasol eu llenwi a'u cadw at ddibenion archwilio, mewn perthynas ag unrhyw sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer pob swydd.
162	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 145) fel swyddi sy'n gofyn— (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.	

CYDYMFFURFIO GYDA SAFONAU CADW COFNODION